Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gyfun Penweddig

**Ffordd Llanbadarn**
**Llangawsai**
**Aberystwyth**
**Ceredigion**
**SY23 3QN**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gyfun Penweddig

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gyfun Penweddig |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ceredigion |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg | Cymraeg – Categori C3 |
| Math o ysgol | Uwchradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 598 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 487 |
| Nifer yn y chweched dosbarth | 111 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Uwchradd yw 21.1%) | 6.1% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Uwchradd yw 11.2%) | 12.1% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 60.2% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 03/09/2024 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 16/01/2017 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 21/10/2024 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol (gov.wales)](https://gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol

## Crynodeb

Mae gofalu am les disgyblion yn cael lle blaenllaw yn Ysgol Gyfun Penweddig. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn arddangos parch at ei gilydd ac agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Mae disgyblion y chweched dosbarth yn gaffaeliad i'r ysgol, gan fodelu ymddygiadau ac agweddau cadarnhaol iawn i ddisgyblion iau. Mae trefniadau cadarn i fonitro a hybu presenoldeb disgyblion wedi arwain at welliannau sylweddol.

Mewn llawer o achosion, mae athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda o'u pwnc ac yn gwneud cynnydd cadarn. Mae ychydig o athrawon yn gwneud hynny'n arbennig o effeithiol gan ysbrydoli'r disgyblion a chynllunio'n ofalus ar gyfer ymateb i'w hanghenion. Yn yr ychydig o achosion ble nad yw'r addysgu yn effeithiol, nid yw disgwyliadau na lefel yr her i ddisgyblion yn addas ac felly nid ydynt yn gwneud cystal cynnydd ac maent yn tueddu i golli ffocws ar eu gwaith.

Yn gyffredinol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd boddhaol yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd ddigidol dros amser. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth ar draws y cwricwlwm wedi ei chydlynu'n ddigon da i sicrhau bod cyfleoedd priodol i ddatblygu'r medrau hyn yn gynyddol.

Er y cyfnod o ansefydlogrwydd yn yr arweinyddiaeth dros y blynyddoedd diwethaf, mae uwch arweinwyr, trwy eu teyrngarwch a'u dyfalbarhad, wedi llwyddo i gynnal safonau cyrhaeddiad a lles disgyblion. Mae hyn wedi rhoi sylfaen gadarn i'r pennaeth newydd wrth gychwyn ei waith. Mae gweledigaeth y pennaeth o feithrin parch, Cymreictod ac ymdrech yn treiddio trwy holl waith yr ysgol. Mewn amser byr, mae wedi llwyddo i greu cysylltiadau buddiol â rhieni, magu hyder yn y staff a sicrhau bod uwch arweinwyr yn weledol i ddisgyblion.

Mae arweinwyr yn adnabod prif gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella yn briodol ar sail gweithgareddau buddiol i werthuso'r ddarpariaeth. Serch hynny, nid yw arweinwyr ar bob lefel yn gwerthuso eu gwaith yn ôl yr effaith a gaiff ar safonau a chyflawniad disgyblion yn ddigonol. O ganlyniad, nid ydynt yn gallu mesur llwyddiant yn llawn nac, yn ei dro, gynllunio'n ddigon manwl ar gyfer gwelliant.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:

A1 Gwella agweddau o addysgu er mwyn codi disgwyliadau a lefel yr her a diwallu anghenion pob disgybl

A2 Cydlynu'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau disgyblion ar draws y cwricwlwm fel bod disgyblion yn gwneud cynnydd parhaus

A3 Sicrhau bod arweinwyr yn gwerthuso gwaith yr ysgol yn ôl ei effaith ar safonau disgyblion

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Addysgu a dysgu**

Mae llawer o athrawon yn meithrin perthnasoedd gwaith da â disgyblion ac yn gosod disgwyliadau uchel o ran ymddygiad ac ymroddiad. Ceir amgylchedd dysgu pwrpasol yn eu dosbarthiadau. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac mae ganddynt agwedd gadarnhaol at eu dysgu.

Mae’r rhan fwyaf o athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol gadarn ac mae llawer yn fodelau iaith effeithiol sy’n hyrwyddo defnydd da o eirfa bynciol. Maent yn esbonio cysyniadau’n effeithiol ac yn rhoi cyfarwyddiadau clir sy’n galluogi disgyblion i wybod beth sy’n ddisgwyliedig ohonynt. Maent yn cylchu’r dosbarth yn gyson i fonitro cynnydd disgyblion wrth iddynt gwblhau eu gwaith ac yn cynnig adborth llafar defnyddiol, yn ôl yr angen. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth bynciol dda ac yn gwneud cynnydd cadarn.

Yn yr ychydig achosion lle mae’r addysgu yn effeithiol iawn, mae athrawon yn galluogi disgyblion i wneud cynnydd cryf a chyflym, oherwydd maent:

- yn dangos egni heintus a brwdfrydedd am eu pynciau sydd yn ysbrydoli disgyblion
- yn cynllunio’n ofalus, yn modelu’n  fedrus ac yn sicrhau lefel her sy’n galluogi disgyblion i gyflawni hyd eithaf eu gallu
- yn holi cwestiynau treiddgar sy’n herio’r disgyblion i ddyfnhau eu dealltwriaeth ac i ddatblygu eu medrau
- yn darparu profiadau perthnasol a diddorol

Mewn ychydig o wersi, mae diffygion yn yr addysgu sydd yn golygu nad yw disgyblion yn gwneud cynnydd digon cyson, ac ar adegau, yn colli diddordeb yn eu dysgu. Yn aml yn y gwersi hyn:

- nid oes gan athrawon ddisgwyliadau digon uchel ac nid ydynt yn herio disgyblion yn ddigon da
- mae diffygion yng nghynllunio athrawon, er enghraifft nid ydynt yn ystyried digon yr hyn y maent am i’r disgyblion ei ddysgu
- maent yn cyflwyno am ormod o amser ac yn cwtogi ar y cyfleoedd sydd gan ddisgyblion i weithio’n annibynnol
- nid yw athrawon yn defnyddio strategaethau priodol i reoli ymddygiad a diwallu anghenion yr holl ddisgyblion
- mae ansawdd a phriodoldeb y profiadau i ddisgyblion yn amrywio gormod

Mae llawer o athrawon yn holi'n briodol i brofi faint mae disgyblion yn ei wybod a’i ddeall. Dim ond ychydig sy'n holi'n fedrus i brocio neu ddyfnhau dealltwriaeth disgyblion. Mae hyn yn cyfyngu ar ddatblygiad medrau meddwl disgyblion a'u gallu i ddatblygu atebion estynedig.

Mewn lleiafrif o achosion, mae athrawon yn cynnig sylwadau ysgrifenedig defnyddiol i ddisgyblion ar sut i wella eu gwaith ac ymestyn eu dysgu. Ar adegau, mae’r sylwadau’n  cynnwys cwestiwn neu her ychwanegol neu’n rhoi cyfeiriad penodol a chlir i’r disgybl ar sut i wella’r gwaith. Yn yr achosion gorau, mae disgyblion yn ymateb yn dda i’r cyngor ac yn ailddrafftio a gwella eu gwaith. Yn rhy aml, mae sylwadau athrawon yn arwynebol neu’n or-ganmoliaethus. Mewn ychydig o achosion, prin iawn yw’r adborth a gynigir i ddisgyblion.

Ar y cyfan, mae disgyblion yn cael cyfleoedd addas i ymarfer eu medrau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd ddigidol mewn amrywiol bynciau. Fodd bynnag, nid yw’r cyfleoedd hyn wedi eu cynllunio na’u cydlynu’n ddigon strategol. O ganlyniad, nid yw’r profiadau’n  caniatáu datblygiad cynyddol ym medrau’r disgyblion mewn cyd-destunau gwahanol ar draws y cwricwlwm.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwrando’n astud ar esboniadau a chyfarwyddiadau’r athro ac yn dangos parch tuag at gyfraniadau eu cyfoedion. Maent yn ateb ar lafar yn y Gymraeg yn hyderus ac yn cymryd rhan weithredol mewn trafodaethau dosbarth. Mae llawer o ddisgyblion yn hyfedr wrth siarad Saesneg, gan ddefnyddio geirfa gyfoethog. Pan fydd cyfle, mae mwyafrif y disgyblion yn ymateb yn dda gan gynnig esboniadau estynedig a gwneud defnydd da o derminoleg bynciol. Mewn ychydig o wersi, mae disgyblion yn hapus i holi’r athro ac maent yn cyfieithu’n rhwydd o’r Saesneg i’r Gymraeg. O bryd i’w gilydd, mae ychydig o ddisgyblion yn troi i’r Saesneg pan fyddant yn cydweithio, er bod disgwyl iddynt drafod yn y Gymraeg.

Defnyddia lawer o ddisgyblion eu medrau darllen elfennol yn y ddwy iaith yn gymwys i gywain gwybodaeth ac adnabod ffeithiau. Maent yn dilyn cyfarwyddyd ysgrifenedig yn llwyddiannus. Mae’r mwyafrif yn llwyddo i ddadansoddi darnau o destun gan ddarllen rhwng y llinellau, er enghraifft wrth ystyried cerddi beirdd o Gymru yn y gwersi Cymraeg a Saesneg. O gael y cyfle, maent yn darllen yn hyderus gan amrywio eu llais i gyfleu ystyr, er enghraifft wrth ddarllen darn o’r nofel Prism gan Manon Steffan Ros. Yn gyffredinol, nid oes digon o gyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau darllen ar draws y cwricwlwm.

Ar y cyfan, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu’n dechnegol gywir yn y Gymraeg a Saesneg. Maent yn strwythuro eu gwaith trwy baragraffu a brawddegu’n synhwyrol gyda chystrawen gywir. Mae ychydig o ddisgyblion yn datblygu eu hysgrifennu’n effeithiol iawn, gan fynegi eu hunain mewn modd mwy soffistigedig. Yn gyffredinol, mae llawer yn ysgrifennu’n dda yn y ddwy iaith ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd gan gynhyrchu sgriptiau, llythyrau a darnau mynegi barn. Mae ychydig yn gwneud camgymeriadau esgeulus yn eu sillafu a gramadeg. Oherwydd diffyg cyfleoedd, nid yw disgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu’n estynedig yn ddigonol mewn pynciau y tu hwnt i’r Gymraeg a Saesneg.

Yn eu gwersi mathemateg, mae llawer o ddisgyblion yn arddangos medrau rhif cadarn. Maent yn datblygu eu dealltwriaeth o indecsau, rhifau sgwâr a ffactorau yn briodol. Erbyn diwedd Blwyddyn 9, mae disgyblion yn llwyddo i arddangos

dealltwriaeth dda o gymarebau a ffracsiynau. Mewn pynciau eraill, mae llawer yn llwyddo i gymhwyso eu medrau rhif sylfaenol, er enghraifft wrth gyfrifo canrannau mewn gwyddoniaeth a chyfrifo elw o werthu cacennau yn eu gwersi technoleg. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd iddynt ddatblygu a chymhwyso eu medrau rhif ar draws y cwricwlwm mewn pynciau perthnasol.

Mae ychydig o bynciau yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau digidol. Yn eu gwersi graffeg, er enghraifft, mae llawer yn llwyddo i ddefnyddio pecyn dylunio 3D i wneud dyluniadau o wrthrychau. Maent yn datblygu eu medrau digidol yn briodol o fewn gwersi technoleg ddigidol. Er enghraifft, maent yn elwa o gyfleoedd i ddatblygu eu medrau codio, defnyddio taenlenni a chyflwyno gwybodaeth. Tu hwnt i'r gwersi hynny, nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu huwch fedrau digidol.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau corfforol yn dda ac yn dangos lefelau ffitrwydd uchel yn eu gwersi addysg gorfforol. Maent yn deall pwysigrwydd ac effaith ymarfer ar wahanol rannau o'r corff. Mae'r mwyafrif yn datblygu medrau creadigol yn addas, er enghraifft trwy greu darluniad dyfrlliw yn efelychu arddull yr arlunydd Mary Lloyd Jones.

Yn gyffredinol, mae disgyblion y chweched dosbarth yn arddangos agweddau hynod o gadarnhaol tuag at eu gwaith a bywyd yr ysgol. Maent yn ymgysylltu'n dda yn y gwersi ac yn cyfrannu'n gadarnhaol i drafodaethau. Mae bron pob un yn adalw gwaith blaenorol yn dda iawn ac mae llawer yn cynhyrchu gwaith ysgrifenedig graenus, er enghraifft yn eu traethodau addysg grefyddol.

Mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm eang a chytbwys i'r rhan fwyaf o ddisgyblion ac yn cynnwys amrywiaeth o gyfleoedd yng nghyfnod allweddol 4 fel amaethyddiaeth ac adeiladwaith. Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ysgolion a darparwyr eraill er mwyn cynnig cyfleoedd cwricwlaidd amgen yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth, megis cyrsiau trin gwallt a gwaith gofaint. Mae gan yr ysgol drosolwg priodol o'r profiadau a gynigir ar gyfer bodloni gofynion Cwricwlwm i Gymru o fewn pob maes dysgu a phrofiad.

Rhoddir sylw buddiol i agweddau o addysg bersonol a chymdeithasol trwy wersi Iechyd a Lles ym Mlynyddoedd 7-11 o dan themâu fel 'Fi fy hun', 'Perthynas ag eraill' a 'Diwylliant a Gwerthoedd'. Mae hyn yn cyfrannu'n werthfawr at ddealltwriaeth gadarn ddisgyblion o bwysigrwydd dangos parch a chyfeillgarwch at ei gilydd.

Mae trefniadau trosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd yn gadarn. Yn gwricwlaidd, mae cyfleoedd gwerthfawr i adrannau gydweithio â staff ysgolion cynradd i ddarparu profiadau pynciol i ddisgyblion Blwyddyn 6. Er eu bod yn eu dyddiau cynnar, mae trefniadau addas mewn ychydig o bynciau i gydlynu'r ddarpariaeth a sicrhau dilyniant a pharhad rhwng Blynyddoedd 5 a 6 a'r uwchradd.

Mae ystod o gyfleoedd allgyrsiol cyfoethog ar gyfer disgyblion sy'n adeiladu ar eu profiadau cwricwlaidd. Mae hyn yn cynnwys Her Menter yr Ifanc a roddodd gyfle gwerthfawr i ddisgyblion i gynrychioli'r ysgol yn Sisili. Mae disgyblion eraill wedi elwa o'r cyfle i gystadlu mewn cystadleuaeth dadlau yn Saesneg, yn ogystal â derbyn mentora gan fyfyrwyr ieithoedd tramor modern  y brifysgol leol.

Mae’r ysgol yn hybu goddefgarwch a dathlu amrywiaeth yn llwyddiannus. Caiff disgyblion gyfleoedd priodol i ddeall hanes a phrofiadau cymunedau pobl Dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig drwy lenyddiaeth a chyfleoedd i gwrdd ag awduron o’r cefndiroedd hyn, er enghraifft wrth fynychu gweithdai fel rhan o Ŵyl y Gelli. Mae’r grŵp ‘Agored’ yn cyfarfod yn wythnosol ac yn darparu awyrgylch gartrefol a diogel i’r disgyblion sy’n rhan o’r gymuned Lesbiaidd, Hoyw Deurywiol a Thrawsryweddol+. Mae nifer o gyfleoedd cyfoethog i ddatblygu Cymreictod o fewn y cwricwlwm, er enghraifft, drwy astudio arlunwyr o Gymru mewn gwersi celf a’r bardd R.S.Thomas yn y gwersi Saesneg. Mae’r Gymraeg yn cael sylw amlwg y tu allan i’r gwersi; er enghraifft, mae disgyblion yn cymryd rhan mewn Eisteddfodau lleol a chenedlaethol, sioeau cerdd ac yn gwrnado ar gerddoriaeth Gymraeg yn gyson.

**Lles, gofal, cymorth ac arweiniad**

Mae gweledigaeth yr ysgol i feithrin disgyblion parchus, Cymreig sydd yn ymdrechu i wneud eu gorau wedi ei rhannu’n  glir gyda’r holl randdeiliaid. Mae staff yn annog disgyblion i feithrin y gwerthoedd hyn, ac o ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn arddangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu a pharch tuag oedolion a’u cymheiriaid.

Mae’r gofal am les disgyblion ar draws yr ysgol yn gryf. Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn bwrpasol trwy wasanaethau, y cwricwlwm iechyd a lles, a gweithgareddau cyfnodau boreol. Maent yn addasu’r ddarpariaeth yn ôl yr angen er mwyn ymateb i ganfyddiadau o arolygon neu ddigwyddiadau o fewn yr ysgol. Mae’r staff bugeiliol yn adnabod disgyblion yn dda ac yn defnyddio’r wybodaeth amdanynt i ddarparu’n bwrpasol er mwyn ymateb i anghenion llesiant unigolion.

Cydweithia’r ysgol ag amrywiaeth o asiantaethau allanol cefnogol ac mae hyn yn ychwanegu’n fuddiol at y ddarpariaeth lles. Er enghraifft, mae cydweithio hwylus a chadarnhaol rhwng yr heddlu lleol, Gwasanaeth Porth Cymorth Cynnar yr awdurdod lleol a’r gwasanaeth ieuenctid.

Mae’r ysgol yn cydymffurfio â’r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) ac mae’r ddarpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol (ADY) disgyblion yn gryfder. Mae sesiynau ymyrraeth buddiol ar gyfer unigolion yn eu cynorthwyo i ymarfer a gwella’u medrau darllen a rhif. Mae’r proffiliau un tudalen yn gynhwysfawr a buddiol, ond nid yw’n hawdd i athrawon ddefnyddio’r holl wybodaeth er mwyn adnabod sut  gallent gefnogi’r  disgyblion yn bwrpasol bob amser.

Trefnir cyfleoedd a darpariaeth fuddiol i gefnogi disgyblion i ystyried dewisiadau gyrfa. Er enghraifft, maent yn gwerthfawrogi a mwynhau sesiynau amrywiol a chyson i godi eu hymwybyddiaeth o opsiynau ar gyfer y dyfodol. Rhoddir cefnogaeth bwrpasol i helpu disgyblion i symud i’r camau nesaf yn eu bywydau.

Mae trefniadau pontio effeithiol rhwng yr ysgol gynradd ac uwchradd yn helpu lleddfu pryder a chynorthwyo disgyblion i ddod yn gyfarwydd â’r ysgol. Mae trefniadau penodol ychwanegol ar gyfer y rhai hynny sy’n dod o ysgolion bychain. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf yn setlo’n dda yn yr ysgol.

Mae llawer o gyfleoedd buddiol i grwpiau o ddisgyblion gymryd rhan o fewn y gymuned. Er enghraifft, mae côr yr ysgol yn ymfalchïo yn y cyfle i gyd-ddathlu ag actorion Pobol y Cwm wrth iddynt ddathlu 50 mlynedd. Mae disgyblion sydd ag ADY yn elwa o gymdeithasu a chydweithio wrth iddynt wirfoddoli mewn busnesau lleol a mynychu llyfrgell y dref.

Darperir cyfleoedd da i ddisgyblion fynegi eu barn a dylanwadu ar fywyd ysgol trwy'r cynghorau blwyddyn a chyngor ysgol. Er enghraifft, mae eu syniadau wedi cyfrannu at fireinio'r system wobrwyo, ac o ganlyniad, mae disgyblion o'r farn bod y system hon yn fwy addas a phwrpasol. Serch hynny, nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion leisio eu barn am eu profiadau dysgu o fewn pynciau.

Ceir cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau arwain, er enghraifft trwy'r cyngor ysgol a thrwy redeg y clwb menter. Yn y clwb menter, mae disgyblion y chweched dosbarth yn defnyddio eu profiadau blaenorol i fentora disgyblion eraill o fewn y clwb i gychwyn busnes. Maent hefyd yn cyfrannu'n werthfawr at fywyd yr ysgol trwy weithgareddau fel rhedeg 'Clwb Gwneud Ymdrech trwy Siarad y Gymraeg (GYTS)' a dyfarnu a hyfforddi timau chwaraeon. Mae disgyblion yn elwa o'r arlwy eang o gyfleoedd allgyrsiol buddiol, gan gynrychioli'r ysgol mewn chwaraeon, sioe ysgol ac Eisteddfodau.

Mae gan y tîm bugeiliol strwythurau priodol i ddelio â'r ychydig o achosion lle mae disgyblion yn dangos diffyg parch, Cymreictod neu ymdrech. Er hyn, nid yw athrawon bob amser yn ddigon cyson wrth gymhwyso'r prosesau i ddelio â disgyblion sy'n camymddwyn mewn gwersi. Mae arweinwyr yn dadansoddi data yn effeithiol er mwyn adnabod y disgyblion sydd angen cefnogaeth emosiynol, a darparu rhaglenni ymyrraeth ar eu cyfer. Gweithia'r ysgol yn bwrpasol gyda'r awdurdod lleol i gynnig cwricwlwm amgen i unrhyw ddisgyblion sydd mewn perygl o gael eu diarddel.

**Ciplun: Gwella presenoldeb**

Mae'r prosesau tynn sydd gan yr ysgol i hybu presenoldeb yn gryfder sylweddol. Mae arweinwyr yn dadansoddi amrywiaeth o ddata'n rheolaidd i nodi tueddiadau ym mhresenoldeb blynyddoedd ysgol a grwpiau o ddisgyblion, gan wneud cymariaethau defnyddiol. Mae pwysigrwydd presenoldeb yn cael ei rannu'n effeithiol gyda rhieni. Mae dull graddedig o ymyrryd yn syth pan fydd presenoldeb disgyblion yn dechrau peri pryder ac mae arweinwyr yn sicrhau bod hybu presenoldeb da yn gyfrifoldeb ar yr holl staff. Mae gwerthusiadau rheolaidd yn digwydd o effeithiolrwydd gwaith yr ysgol i wella presenoldeb disgyblion, gyda strategaethau'n cael eu haddasu yn ôl yr angen. Mae gwaith yr ysgol yn y maes hwn wedi arwain at welliannau sylweddol.

Mae cyfraddau presenoldeb yr ysgol yn sylweddol uwch na'r hyn a welir mewn ysgolion tebyg, er eu bod yn parhau i fod yn is na chyfraddau'r ysgol cyn y pandemig. Mae presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol a hefyd yn uwch na phresenoldeb y grŵp hwn o ddisgyblion mewn ysgolion sydd â chyd-destun tebyg.

Mae gan yr ysgol ddiwylliant cadarn o ddiogelu. Mae hyfforddiant pwrpasol a rheolaidd yn cael ei ddarparu i staff a llywodraethwyr, sy'n sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth dda o'u rolau a'u cyfrifoldebau i gadw disgyblion yn ddiogel. Mae cofnodion manwl yn cael eu cadw o unrhyw bryderon mae staff yn eu nodi, sy'n

caniatáu i arweinwyr adeiladu darlun o anghenion disgyblion a gweithredu yn amserol, yn ôl yr angen. Mae staff yn delio'n briodol â'r achosion prin o bryderon mae disgyblion yn eu rhannu gyda nhw. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn ymwybodol o beth i'w wneud os oes ganddyn nhw bryderon.

## Arwain a gwella

Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r ysgol wedi bod trwy gyfnodau sylweddol o ansefydlogrwydd. Serch hyn, mae'r cyn-bennaeth dros dro ac arweinwyr eraill wedi arddangos dycnwch a dyfalbarhad nodedig wrth arwain staff, sicrhau lles disgyblion, gwella presenoldeb a chynnal addysgu sy'n gadarn. Mae hyn wedi rhoi sail gadarn i'r pennaeth newydd sydd wedi cychwyn yn ei rôl yn ddiweddar iawn.

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir wedi ei seilio'n gadarn ar werthoedd craidd a pherthnasol, sef Cymreictod, parch ac ymdrech. Mae'n cyfathrebu'r weledigaeth hon yn huawdl a chyson i holl gymuned yr ysgol. Mae'r pennaeth yn arweinydd doeth a phwyllog sydd wedi ymgymryd â'i rôl gyda brwdfrydedd a phendantrwydd. Yn yr amser byr ers ei benodiad, mae wedi llwyddo i gryfhau yr ymdeimlad o dîm ymysg staff a chynnig cyfleoedd cyson a hwylus i rieni ddod i drafod unrhyw agweddau o'r ysgol. Yn ogystal, mae wedi mabwysiadu dull agored o gyfathrebu â disgyblion a staff a symleiddio rhai prosesau yn synhwyrol. Mae'r pennaeth wedi blaenoriaethu ei bresenoldeb ef a gweddill yr uwch dîm arwain o amgylch yr ysgol. O ganlyniad, maent yn weledol iawn, yn ymgysylltu'n barhaus â disgyblion a staff, ac mae hyn yn cael ei werthfawrogi'n n fawr.

Caiff y pennaeth ei gefnogi'n gadarn iawn gan weddill yr uwch dîm arwain. Maent yn arddel gwerthoedd y pennaeth ac yn ymroi i sicrhau gwelliannau trwy gydweithio grymus a chydweithredol. Mae arweinwyr yn rhoi sylw cymwys i flaenoriaethau cenedlaethol fel datblygiad y Gymraeg a sicrhau diwylliant cryf o ddiogelwch. Yn ogystal, mae gan yr ysgol drefniadau cryf i leihau effaith andwyol tlodi ac amddifadedd ar les a chyflawniad disgyblion. Mae datblygiadau Cwricwlwm i Gymru yn briodol, ar y cyfan, ond mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol disgyblion yn gynyddol yn annatblygedig.

Ceir strwythur rheolaeth llinell addas. Dros amser, mae arweinwyr wedi adnabod ychydig o staff sydd angen cymorth i wella'u harfer ac wedi rhoi trefniadau addas ar waith i'w cefnogi i wneud gwelliannau. Mae'r trefniadau hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar lawer ohonynt dros amser. Fodd bynnag, nid yw prosesau i fynd i'r afael â thangyflawni ychydig iawn o staff wedi bod yn ddigon cadarn i sicrhau gwelliannau angenrheidiol.

Drwyddi draw, mae prosesau sicrhau ansawdd yn briodol ar draws yr ysgol. Mae uwch arweinwyr yn ystyried ystod addas o dystiolaeth er mwyn adnabod cryfderau a meysydd i'w gwella. Mae'r rhain yn cynnwys arfarniad o ddeilliannau disgyblion, teithiau dysgu a gweithgareddau craffu ar waith disgyblion ac yn sicrhau trosolwg da o ran rhai agweddau o'r ddarpariaeth. Serch hynny, mae arfarniadau o wersi a gwaith disgyblion yn canolbwyntio'n bennaf ar beth mae athrawon yn ei wneud a'r strategaethau addysgu sydd wedi eu cynnwys yn y gwersi. Nid oes ystyriaeth ddigonol o lefel yr her na pha mor addas yw disgwyliadau athrawon. Yn ogystal, nid

oes digon o sylw i'r effaith a gaiff yr addysgu ar gynnydd, dealltwriaeth na datblygiad medrau disgyblion.

O ganlyniad i fewnbwn ac arweiniad cadarn gan uwch arweinwyr a chefnogaeth allanol, mae gallu arweinwyr pynciol i werthuso eu gwaith ac i gyflawni gweithgareddau sicrhau ansawdd wedi cryfhau. Mae hyn wedi eu galluogi i lunio arfarniadau dilys o ansawdd y ddarpariaeth yn eu meysydd cyfrifoldeb. Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o'r arweinwyr hyn yn ystyried effaith yr addysgu ar safonau a chyflawniad disgyblion mewn gwersi a'r cynnydd a wnânt dros amser. Mae arweinwyr ar bob lefel yn casglu barn disgyblion a rhieni am waith yr ysgol yn achlysurol. Mae hyn wedi arwain at addasiadau mewn ychydig o feysydd pwysig. Nid yw arweinwyr yn holi barn disgyblion am eu profiadau o sut a beth y maent yn ei ddysgu yn ddigon rheolaidd.

Mae trefniadau rheoli perfformiad yn briodol ac mae cysylltiad uniongyrchol rhwng yr amcanion i unigolion a blaenoriaethau'r ysgol. Nid yw natur yr amcanion bob amser yn gysylltiedig â gwella ymarfer nac yn caniatáu i arweinwyr ddwyn staff yn atebol. Cynhelir cyfarfodydd gwerthfawr yn ystod y flwyddyn i drafod datblygiad staff a'r cynnydd yn erbyn yr amcanion. Yn aml, ni wneir digon o gysylltiad rhwng yr hyn a wna athrawon ac arweinwyr a'i effaith ar gynnydd a chyflawniad disgyblion.

Mae'r ysgol yn cynnig ystod briodol o brofiadau dysgu proffesiynol ar gyfer yr holl staff. Mae hyn yn cynnwys arweiniad ar strategaethau addysgu a chyfleoedd gwerthfawr i gydweithio ag ysgolion eraill ac ymarferwyr allanol i gryfhau arweinyddiaeth ar bob lefel.

Mae'r llywodraethwyr yn weithgar a chydwybodol ac yn angerddol dros lwyddiant yr ysgol. Maent yn cynnal sesiynau trafod gwerthfawr yn ystod nosweithiau rhieni ac yn frwd dros gefnogi a chydweithio ag arweinwyr meysydd dysgu a phrofiad. Maent yn cyflawni eu rôl fel cyfeillion beirniadol yn gadarn ac yn herio arweinwyr ynghylch nifer o feysydd pwysig. Mae hyn wedi arwain at welliannau o ran y ddarpariaeth gwricwlaidd a lles dros amser.

Mae'r pennaeth, llywodraethwyr a'r swyddog busnes yn cydweithio'n effeithiol i reoli cyllid. Maent yn monitro'r defnydd o grantiau yn briodol, gan gynnwys y grant datblygu disgyblion. Yn ddiweddar, maent wedi gwneud penderfyniadau synhwyrol i leihau gwariant. Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos â'r awdurdod addysg lleol i leihau'r ychydig o ddiffyg ariannol.

Mae'r ysgol wedi ymateb yn llwyddiannus i fwyafrif o argymhellion yr arolygiad diwethaf. Dros amser, mae arweinwyr wedi cael effaith gadarnhaol ar agweddau pwysig fel sicrhau lefelau presenoldeb cyson uwch nag ysgolion tebyg eraill, ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a chyfranogiad helaeth disgyblion mewn gweithgareddau allgyrsiol eang. Nid yw effaith arweinyddiaeth ar wella agweddau penodol o addysgu a'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol disgyblion wedi bod yn ddigon cadarn.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelwch y safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae’r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *‘y rhan fwyaf o ddisgyblion…’* neu *‘ychydig iawn o ddisgyblion…’*. Rydym yn defnyddio’r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y **caiff** ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 20/12/2024